# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 5

DARPARIAETH BELLACH MEWN PERTHYNAS Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A RHEOLIADAU CYD-BWYLLGOR

*Hybu a gwella llesiant economaidd*

### 76 Y swyddogaeth llesiant economaidd

(1) Caiff cyd-bwyllgor corfforedig y rhoddwyd y swyddogaeth llesiant economaidd iddo wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal.

(2) Caniateir i'r swyddogaeth llesiant economaidd gael ei harfer mewn perthynas â'r canlynol neu er budd y canlynol—

(a) ardal gyfan y cyd-bwyllgor corfforedig neu unrhyw ran ohoni;

(b) yr holl bersonau neu unrhyw bersonau sy'n preswylio neu'n bresennol yn ei ardal.

(3) Mae'r swyddogaeth llesiant economaidd yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw beth mewn perthynas ag unrhyw berson neu ardal, neu er budd unrhyw berson neu ardal, a leolir y tu allan i ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, gan gynnwys ardaloedd y tu allan i Gymru, os yw'r cyd-bwyllgor corfforedig yn ystyried ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hybu a gwella llesiant economaidd. (See end of Document for details)*

(4) Mae is-adrannau (1) i (3) yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth llesiant economaidd y darperir ar ei gyfer mewn rheoliadau cyd-bwyllgor neu reoliadau o dan adran 83.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 76 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hybu a gwella llesiant economaidd.